BEDYDD CRIST

**GENESIS 1:1-5; SALM 29; ACTAU 19:1-7;
MARC 1:4-11**

● **Gweddi agoriadol**
Addolwn di,
O! Arglwydd ein Duw,
yn ysblander dy sancteiddrwydd,
gan wybod yn iawn am dy ras a'th drugaredd
ac ym mhresenoldeb dy bobl,
ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist.
Addolwn di,
O! Arglwydd ein Duw.

● **Moliant**
Yn y dechrau
roeddet ti yno,
ac roedd y byd hwn
a phopeth ynddo
yn rhan o'th gynllun.

Yn y dechrau
roeddet ti yno,
Dad, Mab
ac Ysbryd Glân,
a thragwyddoldeb yn dy law.

Yn y dechrau
roeddet ti yno,
Greawdwr,
a'th air yn dod â goleuni
i dir tywyll a llwm.

● **Cyffes**

Atgoffa ni, Arglwydd,
wrth i ni ymdrechu
gyda beichiau'r bywyd hwn,
i ti, wrth gerdded
o ddyfroedd bedydd Iorddonen,
ymostwng i fywyd
o wasanaeth dwyfol ac aberth.

Deuai deillion i weld,
byddariaid i glywed,
cloffion i neidio mewn llawenydd --
ac er ein mwyn ni,
rhai heb eu geni,
dioddefaist waradwydd,
dy freichiau ar led
mewn cariad
ar groes.

Dyna olwg amgen
ar ein beichiau, Arglwydd.
Maddau i ni, atgoffa ni
a chydia amdanom
yn dy freichiau cariadus yw'n gweddi.

● **Diolch**

Am y rheini sydd,
mewn gair a gweithred,
yn cyhoeddi dy enw
ar y strydoedd hyn,
sy'n byw'r bywyd a bregethant
ac sydd, drwy dy Ysbryd, yn tystio
i'r un sydd wedi dod
ac sydd i ddod;
am y rheini a'n harweiniodd
i'r lle hwn
lle bodlonir dyheadau
gan yr un sydd yn wir Fab Duw,
rydym yn wir ddiolchgar.
Bendithia hwy,
a boed i'w hesiampl
fod yn ysbrydiaeth i ni.